# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Paul Meara | Adran Etholiadol: | Sgeti |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Roedd Democratiaid Rhyddfrydol Sgeti'n cynnal cymorthfeydd pythefnosol yng Nghanolfan Gymunedol Parc Sgeti a Llyfrgell Sgeti. Hefyd, mae gennym bresenoldeb rheolaidd ym Marchnad Ffermwyr Sgeti ar ddydd Sadwrn cyntaf pob mid a'r cyfarfod PACT deufisol. Cefnogasom ailddatblygu'r cyrtiau tenis ar Heol De La Beche ac ailwampio Parc Parry gyda rhoddion o'r lwfans amgylcheddol cynghorydd.

Mae'r prif faterion rwyf wedi dod ar eu traws eleni wedi ymwneud â'r dreth ystafell wely, coed y bernir eu bod yn beryglus, niwsans cŵn, ymddygiad gwrthgymdeithasol, parcio anghyfrifol a phosibilrwydd ailddatblygu safle garej Total gynt ar Heol Eversley. Hefyd, cododd cynllun ailraddio swyddi'r cyngor faterion sylweddol.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Dangosir % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor isod:

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 6 / 7 | 86% |
| Pwyllgor Archwilio | 8 / 10 | 80% |
| Fforwm Magu Plant Corfforaethol | 2 / 3 | 67% |
| Y Cyngor | 16 / 17 | 94% |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | 3 / 4 | 75% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 5 / 7 | 71% |
| Is-bwyllgor Hawliau Tramwy a Thir Comin | 2 / 5 | 40% |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 19 / 22 | 86% |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr | 3 / 3 | 100% |
| **CYFFREDINOL** | **64 / 78** | **82%** |

Cyfarfodydd Craffu

| | | |
|---|---|---|
| Gweithgor Craffu Rheoli Perygl Llifogydd Lleol | 1 / 1 | 100% |
| Panel Craffu Perfformiad Ysgolion | 11 / 12 | 92% |
| **CYFFREDINOL** | **12 / 13** | **92%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Fy mhrif waith eleni fu gweithredu fel Is-gadeirydd y Panel Maethu Cyfeillion a Theulu. (12 cyfarfod diwrnod llawn y flwyddyn, ynghyd â chyfarfodydd a hyfforddiant brys: presenoldeb 95%. Rwy'n ystyried mai'r gwaith hwn yw'r peth pwysicaf rwy'n ei wneud fel cynghorydd. Hefyd, cymerais dros rôl Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd. Rolau eraill: Hyrwyddwr dros Faterion Iaith (gan gynnwys y Gymraeg). Ni fu materion iaith sylweddol eleni. Fodd bynnag, disgwylir cyhoeddi Safonau newydd y Gymraeg yn fuan.
Rwy'n parhau i weithio ar ddatblygu Profion Hyfedredd Iaith Gymraeg y gellid eu defnyddio i asesu sgiliau iaith Gymraeg staff y cyngor.
Rwyf hefyd yn gweithio gyda Steve Morris, Prifysgol Abertawe, i ddatblygu cyfres o safonau'r Gymraeg i siaradwyr ail iaith.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Aelod o'r Is-bwyllgor Craffu ar Safleoedd Sipsiwn/Teithwyr.
Cadeirydd y Gweithgor ar Adeiladau Hanesyddol.
Aelod o'r Fforwm Magu Plant Corfforaethol
Aelod o'r Fforwm Cyswllt Myfyrwyr
Is-gadeirydd Pwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol Parc Sgeti.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Rwyf wedi bod i'r sesiynau hyfforddi canlynol:
05/03/2015 - Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl
29/01/2015 - Gwneud Craffu'n Fwy Effeithiol
19/11/2014 - Rôl Aelodau Etholedig mewn Cefnogi a Hyrwyddo Sipsiwn, Roma a Theithwyr
15/10/2014 - Rheoli Trysorlys mewn Llywodraeth Leol
13/10/2014 - Diogelu
05/08/2014 - Cynnwys y Cyhoedd
23/07/2014 - Diogelu Data (gan gynnwys rôl y rheolwr data)
03/07/2014 - Rhyddid Gwybodaeth

Fy swydd flaenorol oedd Athro Ieithyddiaeth ym Mhrifysgol Abertawe. Mae iaith yn bwysig mewn llawer o feysydd yng ngwaith y cyngor ac rwy'n ceisio dilyn y materion cyfredol yn y maes hwn. Rwy'n cynnal cynllun bach sy'n darparu arian ar gyfer prosiectau iaith diddorol yn Abertawe. Yn ystod 2014-2015, roeddwn yn ariannu prosiect iaith arwyddion i'r byddar ym Mhrifysgol Abertawe a'r prosiect Lladin yn y Parc.
Rwy'n parhau i boeni am y ffordd mae'r cyngor yn dibynnu ar ddata sy'n cael ei ddarparu i'r Ymddiriedolaeth Teulu Fischer a'i ddadansoddi ganddi i wneud amcanestyniadau am lefelau cyrhaeddiad plant yn yr ysgol. Mae'n destun pryder mawr i mi fod cwmni o'r enw Capita wedi cymryd dros y set ddata helaeth iawn hon. Mae'n debyg bod y dadansoddiad – a ddisgrifiwyd mewn un erthygl gylchgrawn fel 'ystadegau fwdw' - yn arbennig o wael wrth ymdrin â phlant dwyieithog, plant ag anawsterau dysgu difrifol a phlant o deuluoedd mewnfudol. Mae gennym lawer o'r plant hyn yn Abertawe. Cofiwch edrych yma am ragor o ddatblygiadau.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Fi oedd cadeirydd y llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Sgeti yn ystod 2014, ac aelod o gorff llywodraethu Ysgol Pen-y-Bryn trwy gydol 2014-2015.
Aelod o Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 05.06.15 |